Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Adroddiad ar

Ysgol Llan-y-pwll

Ysgol Llan-y-pwll
Ffordd Parc Borras
Wrecsam
LL12 7TH

Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

Ynglŷn ag Ysgol Llan-Y-Pwll

Enw'r darparwr	Ysgol Llan-y-pwll
Awdurdod lleol	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Iaith y darparwr	Cymraeg
Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg	
Math o ysgol	Cynradd
Cymeriad crefyddol	
Nifer y disgyblion ar y gofrestr	47
Disgyblion o oedran ysgol statudol	17
Nifer yn y dosbarthiadau meithrin	20
Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 22.9%)	17.4%
Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 11.1%)	4.3%
Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd	10.6%
Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol	0.0%
Partner arweiniol ar gyfer Addysg gychwynnol athrawon	Nac ydy

Dyddiad penodi'r pennaeth	Medi 2022
Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol)	
Dyddiad dechrau'r arolygiad	20/10/2025

Daw'r data hwn o ddata diweddaraf y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Efallai byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

Crynodeb

Mae Ysgol Llan-y-pwll yn gymuned ddysgu ofalgar, hapus a chynhwysol ble mae ymdeimlad cryf bod bob disgybl yn aelod o deulu mawr, clòs. Agorodd yr ysgol ym mis Medi 2022 ac, ar adeg yr arolygiad, roedd yn darparu addysg i ddisgyblion hyd at ac yn cynnwys Blwyddyn 3. Mae adnabyddiaeth y staff o'r disgyblion, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach yn gynhwysfawr a defnyddir y wybodaeth hon yn fedrus i ddarparu cefnogaeth bwrpasol i ddisgyblion er mwyn diwallu eu hanghenion lles a'u dysgu yn amserol.

Mae gan arweinwyr a staff ddisgwyliadau uchel o ran hybu'r Gymraeg ac maent yn arddel yr iaith yn fwriadus, sy'n dechrau cael effaith fuddiol ar fedrau llafar disgyblion o oedran ifanc. Ar y cyfan, maent yn ymddwyn yn dda ac yn dechrau datblygu dealltwriaeth gynyddol o ddibenion rheolau, gwobrau a chosbau yn yr ysgol sy'n cyfrannu'n fuddiol at agweddau cadarnhaol y rhan fwyaf o ddisgyblion at eu dysgu.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cyson ar draws ystod o fedrau o'u mannau cychwyn amrywiol, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae athrawon yn cynllunio profiadau dysgu ystyrlon a diddorol i ddisgyblion sy'n adlewyrchu'r cyd-destun lleol yn bwrpasol. Fodd bynnag, nid yw'r gweithgareddau dysgu bob amser yn sicrhau'r her briodol i gefnogi disgyblion i wneud y cynnydd gorau ym mhob agwedd o'u datblygiad.

Pan gânt y cyfle, mae disgyblion yn cynnig syniadau priodol i'w themâu ac yn barod i gefnogi gweithgareddau gwerthfawr er mwyn codi arian ar gyfer helpu eraill y tu hwnt i'w milltir sgwâr. Er hyn, nid yw rolau arwain disgyblion trwy gyfrwng cynghorau pwrpasol wedi'u datblygu'n llawn er mwyn cael effaith ehangach ar fywyd a gwaith yr ysgol.

Mae'r trefniadau ar gyfer monitro a gwerthuso gwaith yr ysgol yn bwrpasol. Caiff staff gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu harferion proffesiynol yn barhaus trwy arlwy dysgu proffesiynol cyfoethog yn fewnol a thu hwnt i'r ysgol. Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol ac yn darparu cydbwysedd synhwyrol o gymorth a her i'r pennaeth. Er hyn, nid yw'r corff llywodraethol yn ymgymryd â rôl ddigon cadarn ym mhrosesau hunanwerthuso'r ysgol yn ddigon cyson er mwyn adnabod ei chryfderau a'r meysydd sydd angen eu gwella. Mae'r modd mae arweinwyr yn adeiladu partneriaethau gwerthfawr â rhieni a'r gymuned ehangach yn nodwedd effeithiol o waith yr ysgol.

Argymhellion

Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r ysgol barhau i wella

A1. Darparu gweithgareddau dysgu sy'n sicrhau her gyson i ddisgyblion

A2. Datblygu rôl arwain disgyblion i ddylanwadu'n ehangach ar fywyd a gwaith yr ysgol

A3. Grymuso'r corff llywodraethol i weithredu prosesau hunanwerthuso yn fwy effeithiol

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Prif werthusiad

Agorodd yr ysgol ym mis Medi 2022 ac, ar adeg yr arolygiad, roedd yn darparu addysg i ddisgyblion hyd at ac yn cynnwys Blwyddyn 3. Wrth i'r ysgol barhau i dyfu dros amser, mae'r pennaeth yn darparu cyfeiriad strategol clir sy'n hyrwyddo datblygiad cynaliadwy a gwelliant parhaus mewn modd bwriadus ac effeithiol. Mae'r weledigaeth hon, sy'n seiliedig ar gydweithio diwyd rhwng holl randdeiliaid yr ysgol, yn sicrhau'r cyfleoedd gorau i bob disgybl o fewn cymuned ddysgu ofalgar a Chymreig. Fel un tîm effeithiol, caiff y pennaeth ei chefnogi'n ddiwyd gan staff ymroddgar sy'n rhoi bri ar sicrhau bod hapusrwydd, diogelwch a lles bob disgybl yn ganolog i holl waith ac ethos yr ysgol.

Ar fynediad i'r ysgol, mae llawer o ddisgyblion o aelwydydd ble mae'r Gymraeg yn newydd iddynt. Un o gryfderau amlwg yr ysgol yw dyheadau uchel a chytûn arweinwyr a staff ar gyfer meithrin medrau Cymraeg disgyblion. Trwy sefydlu partneriaeth hynod effeithiol â'r Cylch Meithrin sydd ar y safle, maent yn cydweithio'n agos i ddarparu profiadau trochi Cymraeg defnyddiol a phwrpasol i ddisgyblion o oedran cynnar. Mae hyn yn dechrau cyfrannu'n fuddiol at gynnydd disgyblion wrth gaffael yr iaith yn adeiladol dros gyfnod.

Un o rinweddau amlycaf yr ysgol yw adnabyddiaeth gadarn arweinwyr a staff o bob plentyn, a'r modd maent yn anelu'n angerddol at ddiwallu eu hanghenion lles a dysgu unigol trwy ddulliau olrhain cynnydd priodol. Mae staff yn defnyddio ystod o ddulliau amrywiol yn bwrpasol i sicrhau bod disgyblion yn barod yn emosiynol i ddysgu. Trwy bartneriaeth ragweithiol â Phrifysgol Wrecsam, mae'r disgyblion hynaf yn datblygu dealltwriaeth gynyddol o bwysigrwydd gofalu am eu lles emosiynol wrth gaffael dulliau rheoli pryder defnyddiol. Mae hyn, yn ei dro, yn cyfrannu'n fuddiol at ddwysáu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o natur newidiol eu hemosiynau ac yn eu harfogi i ymgysylltu'n llawn â'u dysgu.

Mae staff yn meithrin perthnasoedd gwaith cynnes a chadarn â'r disgyblion sy'n datblygu amgylchedd cefnogol ar gyfer dysgu. Yn gyffredinol, maent yn hybu ymddygiad da disgyblion yn briodol. Mae gan y ran fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol tuag at eu dysgu, gan ddangos parodrwydd ac awch i ymgymryd â'r profiadau a gynigir iddynt.

Mae staff yn ystyried awgrymiadau'r disgyblion yn briodol gan gydweithio'n gynhyrchiol â nhw a'u rhieni i ddatblygu cwricwlwm sy'n ymgorffori natur gymunedol yr ysgol yn bwrpasol. Maent yn darparu ystod eang o brofiadau ysgogol ac ystyrlon sy'n sicrhau diddordeb a mwynhad disgyblion yn eu gweithgareddau dysgu. Er hyn, nid yw staff bob amser yn darparu gweithgareddau dysgu sy'n herio'r disgyblion i wneud y cynnydd gorau ym mhob agwedd o'u datblygiad yn ddigon cyson.

Gan amlaf, mae llawer o ddisgyblion yn gwrando'n astud ar gyflwyniadau oedolion a chyfraniadau ei gilydd. Trwy gysylltiad buddiol â chyflogwr lleol, mae'r disgyblion hynaf yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ofyn cwestiynau ac i feithrin dealltwriaeth ddyfnach o briodweddau gwahanol ddeunyddiau a'u defnydd mewn cyd-destun diwydiannol go iawn. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarn at fwynhad disgyblion at eu dysgu, yn codi eu dyheadau ac yn eu cefnogi i feithrin gwerthoedd fel gwydnwch ac ymroddiad yn llwyddiannus.

Dros amser, mae'r rhan fwyaf, gan gynnwys y disgyblion o aelwydydd incwm isel, yn datblygu ystod o fedrau yn gyson, yn cynnwys eu medrau llythrennedd. Yn nosbarthiadau'r disgyblion ieuengaf, mae athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o ddulliau trochi pwrpasol i ddatblygu medrau gwrando a siarad cynnar disgyblion. Ar y cyfan, erbyn cyrraedd Blwyddyn 3, mae llawer yn defnyddio'r Gymraeg yn addas o fewn yr ystafell ddosbarth i gyfathrebu â staff. Mae medrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda, a dangosant fwynhad a hyder cynyddol wrth ddarllen ar goedd. Mae llawer o ddisgyblion meithrin yn datblygu medrau ysgrifennu cynnar yn effeithiol drwy greu marciau yn bwrpasol mewn ystod o ddeunyddiau. Wrth i fedrau'r disgyblion ddatblygu, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu mewn ystod addas o ffurfiau yn briodol.

Trwy gyfrwng eu gwaith thema, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau digidol yn gynyddol hyderus mewn amrywiaeth o gyd-destunau creadigol i gefnogi eu dysgu ehangach. Er enghraifft, maent yn dangos dealltwriaeth gynyddol o gredoau a thraddodiadau crefyddau'r byd trwy gyfuno eu medrau creadigol a digidol i greu animeiddiadau trawiadol o dân gwyllt fel rhan o'u gwaith ar ddathliadau Diwali. Wrth i fedrau'r disgyblion aeddfedu, mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 3 yn arbrofi gyda deallusrwydd artiffisial yn briodol i ddylunio cloriau llyfrau yn greadigol, er enghraifft.

Defnyddia staff ystod dda o ddulliau holi treiddgar sy'n adeiladu ar ddysgu blaenorol disgyblion yn bwrpasol. Maent yn darparu adborth defnyddiol yn ystod sesiynau dysgu sy'n caniatáu i ddisgyblion fyfyrio ar eu gwaith a'i wella yn synhwyrol. Wrth i fedrau'r disgyblion aeddfedu, maent yn ymateb ac yn gweithredu'n briodol i adborth staff ac yn gwneud gwelliannau i'w gwaith yn gydwybodol.

Trwy weithredu diwyd y cyngor dosbarth, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn falch o'u cyfraniad at weithgareddau codi arian at achosion dyngarol bwriadus, er enghraifft wrth godi arian tuag at brynu buwch i gefnogi teulu ar fferm yn Affrica. Mae hyn yn cael effaith gadarn ar ymwybyddiaeth disgyblion o anghenion pobl eraill yn eu cymuned a'r byd ehangach. Er hyn, cyfyngedig yw'r cyfleoedd i ddisgyblion feithrin eu medrau arwain ar gynghorau amrywiol a dylanwadu'n fwriadus ar fywyd a gwaith ehangach yr ysgol.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod y ddarpariaeth o fewn yr ardaloedd dysgu, y tu fewn a thu allan i'r adeilad, yn gyfoethog ac yn cynnig cyfleoedd buddiol i ddisgyblion chwarae, dysgu

ac ymchwilio mewn amgylchedd diddorol. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 1 a 2 yn cymhwyso eu medrau rhifedd a modur mân yn greadigol wrth ddefnyddio offer go iawn yn fedrus i greu patrymau rangoli yn gynyddol annibynnol yn 'ardal y saer coed'. Erbyn cyrraedd Blwyddyn 3, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio'u dealltwriaeth o gysyniadau mathemategol yn gynyddol hyderus.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer cefnogi disgyblion ag ADY. Mae staff yn cynnwys disgyblion, rhieni a sylwadau asiantaethau allanol i gynllunio'r camau nesaf yn eu dysgu yn effeithiol. Darperir ystod ddefnyddiol o raglenni cefnogi gwerthfawr sydd wedi eu teilwra'n gynnil i ymateb i'w hanghenion a'u targedau personol yn barhaus.

Mae gan yr ysgol drefniadau hunanwerthuso priodol ac mae'r holl staff yn cyfrannu'n bwrpasol atynt. Yn gyffredinol, mae llywodraethwyr yn sicrhau eu bod yn darparu cydbwysedd synhwyrol o gymorth a her i arweinwyr. Maent yn herio rhai elfennau o'r adroddiadau a ddarperir gan y pennaeth gan ofyn cwestiynau pwrpasol sy'n gysylltiedig â deilliannau disgyblion a'r ddarpariaeth er mwyn eu cefnogi i wneud cynnydd yn eu medrau. Er hyn, nid yw'r corff yn cymryd rhan ddigon cadarn ym mhrosesau hunanwerthuso'r ysgol. O ganlyniad, nid oes ganddynt ddealltwriaeth ddigon cynhwysfawr o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella.

Nodwedd gref o'r arweinyddiaeth yw'r modd maent yn creu diwylliant ac ethos cadarnhaol sy'n hybu a chefnogi dysgu proffesiynol yr holl staff sydd, yn ei dro, yn annog datblygiad gyrfa parhaus. Yn dilyn hyfforddiant diweddar, mae'r ysgol yn darparu gweithgareddau awyr agored ystyrlon a chreadigol i ddisgyblion yn ardal y goedwig a'r 'Cwt Coedwig', sy'n meithrin eu chwilfrydedd naturiol a'u dychymyg yn llwyddiannus.

Mae staff yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion deimlo'u bod yn perthyn i'w cymuned a'r byd ehangach. Trwy weithgareddau cymunedol ystyrlon gyda'u rhieni, fel plannu a gofalu am goed yn y goedwig fach, mae disgyblion yn datblygu balchder yn eu cyfraniad i'r gymuned ac yn dangos ymwybyddiaeth gynyddol o'u cyfrifoldeb tuag at yr amgylchedd. Mae cyfnodau cyd-addoli yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ystyried safbwyntiau eraill, yn ogystal â rhoi cyfle iddynt fyfyrio ar sut y gellir helpu eraill sy'n llai ffodus.

Mae'r berthynas gynhyrchiol rhwng yr ysgol a'r rhieni a chymuned ehangach yr ysgol yn gryfder amlwg. Mae arweinwyr yn gweithredu'n rhagweithiol i feithrin hyder rhieni wrth gefnogi datblygiad ieithyddol eu plant yn y Gymraeg. Trwy bartneriaeth effeithiol â darparwr addysg lleol, mae arweinwyr yn cynnig sesiynau dysgu Cymraeg buddiol i rieni sydd, yn ei dro, yn eu cefnogi i roi cynnig ar ddefnyddio'r iaith yn adeiladol i gefnogi dysgu eu plant gartref.

Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

bron pob un =	gydag ychydig iawn o eithriadau
y rhan fwyaf =	90% neu fwy
llawer =	70% neu fwy
mwyafrif =	dros 60%
hanner =	50%
tua hanner =	yn agos at 50%
lleiafrif =	islaw 40%
ychydig =	islaw 20%
ychydig iawn =	llai na 10%

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).

Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 19/12/2025